Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Baladeulyn
# Nantlle
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 6BT

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Baladeulyn

Lleolir Ysgol Gynradd Baladeulyn ym mhentref Nantlle wrth droed yr Wyddfa, rhyw dair milltir o Ben-y-groes yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 29 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 6 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 2 ddosbarth oedran cymysg.

Tua 33% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae tua thri chwarter y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Nid oes disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 28% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth mewn gofal i'w swydd ym mis Ionawr 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol a’r ddarpariaeth yn hybu’r disgyblion i wneud defnydd llawn o’r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.

Nodweddion arbennig yw’r ethos teuluol sy’n sicrhau bod y disgyblion a’r staff yn gofalu’n naturiol am ei gilydd a’r berthynas waith arbennig rhwng y disgyblion a’r staff.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda. Mae ymddygiad yn dda iawn ac mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae arweinyddiaeth frwdfrydig y pennaeth yn sicrhau gweledigaeth glir i’r ysgol yn seiliedig ar greu cymuned ddysgu fywiog sy’n hyrwyddo cyfeillgarwch, caredigrwydd a chyflawniad pawb.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A3 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A4 Darparu cyfleoedd priodol i arweinwyr ddatblygu ymhellach eu rolau arweinyddol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i’r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob un disgybl yn datblygu i gyfathrebu’n hyderus ar lafar gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a chystrawen gywir. Mae gan y rhan fwyaf iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder at yr iaith ac yn ei defnyddio i gymdeithasu amser chwarae ac yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i’r llall, er enghraifft wrth ymateb yn ddeallus i raglen newyddion ar beryglon bwlian ar wefannau cymdeithasol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n ddarllenwyr hyderus yn y cyfnod sylfaen. Mae’r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau’n gywir ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion mwy galluog yn darllen gyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau a chymeriadau’n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o’r disgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant effeithiol yn y ddwy iaith. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth o ffynonellau gwahanol er mwyn creu model i ddangos pellter y planedau o’r haul.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu’n effeithiol at wahanol ddibenion ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu pamffled ‘o’r hedyn i’r siocled’. Mae llawer yn ysgrifennu’n annibynnol gan atalnodi’n gywir a defnyddio ansoddeiriau’n effeithiol i gyfoethogi’r gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae llawer yn ysgrifennu’n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am ymweliad diweddar cyn ddisgybl i sôn am ei gwaith celf. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o’r disgyblion sy’n drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol wrth gyflawni tasgau ysgrifennu ymestynnol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif priodol i’w hoed ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth wneud a gwerthu bisgedi i godi arian i brynu clai i’r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ac ar bapur i ddatrys problemau, er enghraifft wrth drefnu bwydlen ar gyfer caffi lleol neu wrth gyfrifo cost taith i ymweld â Nant Gwrtheyrn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod lawn o fedrau TGCh ac yn eu defnyddio’n bwrpasol. Maent yn datblygu’n ddefnyddwyr

hyderus wrth gymhwyso'r medrau hyn ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth greu gwahoddiad i barti ar lan Llyn Nantlle. Maent yn bwydo cyfres o gyfarwyddiadau'n gywir er mwyn symud tegan ar hyd llwybr penodedig. Yn gyffredinol, mae medrau TGCh disgyblion yng ngweddill yr ysgol yn adeiladu'n addas ar y sylfaen hon. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol, er enghraifft wrth gysylltu trwy e-bost â disgyblion ysgol gyfagos. Maent yn ymchwilio'n ddiogel ar y we, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am y planedau. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd, gyda'r disgyblion hŷn yn cymryd eu cyfrifoldebau fel 'ffrindiau ffyddlon' ar y buarth o ddifrif. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae llais y disgybl yn bwysig ac yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Nodwedd gref yw ymroddiad a brwdfrydedd aelodau'r cyngor ysgol wrth gyflwyno gweledigaeth iaith yr ysgol i hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg i drigolion y pentref yn y neuadd gymunedol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad brwdfrydig disgyblion tuag at Ŵyl Fai Dyffryn Nantlle. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol fel elusen Awyr Las a chynnal gwasanaeth diolchgarwch i godi arian i gefnogi teulu lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r canran presenoldeb wedi cynyddu'n raddol ac mae nifer o absenoldebau cyson wedi gostwng yn sylweddol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar.

Mae'r profiadau dysgu yn seiliedig ar themâu diddorol a dychmygus sy'n ennyn awydd y disgyblion i ddysgu. Yn y cyfnod sylfaen, mae pwyslais clir ar feithrin

annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol. Mae’r staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o’r ardal ddysgu tu allan a’r ardal leol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion y cyfnod sylfaen wrth greu gwaith celf gyda deunyddiau naturiol yn yr awyr agored. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn sicrhau bod profiadau dysgu yn adeiladu’n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol disgyblion, er enghraifft wrth astudio hanes y diwydiant llechi.

Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Yn ddiweddar, mae athrawon cyfnod allweddol 2 wedi addasu’r drefn gynllunio er mwyn adeiladu’n fwy bwriadus ar y sylfaen gadarn hon. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws ystod o bynciau. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn cynnwys yr holl ystod o fedrau ac yn arbennig eu medrau trin data

Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy’n cymell disgyblion i ddysgu. Maent yn cysylltu eu gwersi’n effeithiol â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau’n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau cyflymder da i’r sesiynau. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth briodol er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o’u tasgau’n llwyddiannus.

Mae’r athrawon yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu’r cwricwlwm Cymreig ac mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o falchder ymhlith disgyblion tuag at eu hiaith, ardal a diwylliant. Nodwedd gref o’r ddarpariaeth yw’r cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion ddysgu am yr ardal leol, er enghraifft wrth ymweld â gwinllan a gardd lysiau lleol neu ddysgu am chwedlau fel hanes trist Meinir a Rhys yn Nant Gwrtheyrn. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o’u hetifeddiaeth yn llwyddiannus.

Mae’r athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i’r disgyblion yn ystod gwersi ar sut i wella eu gwaith. Er hyn, nid yw athrawon yn defnyddio asesu ffurfiannol i wella gwaith disgyblion yn ddigon cyson ar draws yr ysgol. Anghyson yw’r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ailddrafftio a gwella eu gwaith eu hunain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Nodwedd arbennig o’r ysgol yw’r ethos teuluol sy’n sicrhau bod y disgyblion a’r staff yn gofalu’n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, teimla’r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus iawn. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn creu ethos Cristnogol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel cyfeillgarwch a charedigrwydd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y berthynas waith gadarnhaol rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion â’i gilydd.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cefnogol â nifer o asiantaethau arbenigol, sy’n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a’u rhieni. O ganlyniad, mae unigolion yn cael gofal o ansawdd uchel. Mae gweithdrefanau cadarn ar gyfer gwella presenoldeb wedi gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a chymryd camau priodol i fodloni eu hanghenion o fewn y dosbarth. Mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol ar gyfer unigolion ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn addas yn y broses o'u llunio a'u hadolygu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni a'r gymuned. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu safle cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynnig gwybodaeth gyson i rieni am yr hyn y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r datblygiad ac, o ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud adre i gefnogi'r dysgu. Mae'r ysgol yn ymfalchio yn ei chysylltiadau agos â'r gymuned leol. Mae'r cysylltiadau amrywiol hyn yn galluogi disgyblion i ddysgu am fywyd yr ardal leol, er enghraifft trwy drafod effaith y diwydiant llechi ar ddiwylliant yr ardal.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth frwdfrydig sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth gadarn yn seiliedig ar greu cymuned ddysgu fywiog sy'n hyrwyddo cyfeillgarwch, caredigrwydd a chyflawniad disgyblion. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws cryf ar ddarparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol i ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi diwylliant a hanes eu hardal leol yn fawr.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro'r cyfrifoldebau rheoli ac mae'r staff yn dechrau ymgyfarwyddo â'u rolau yn briodol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol, yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff i gyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad athrawon i ymestyn eu dealltwriaeth o sut i wella'r ddarpariaeth TGCh wrth gyflwyno'r fframwaith ddigidol.

Mae'r pennaeth wedi rhoi strategaethau cadarn ar waith ac wedi creu ethos o gydweithio ymysg staff. Mae'n arwain cyfarfodydd staff rheolaidd i gynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau trwy gydweithio cadarnhaol. Mae hyn eisoes wedi arwain at wella ansawdd yr addysgu ac at sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae’r pennaeth wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol y staff. Mae’n sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu arfer dda ar draws yr ysgol a thrwy gydweithio gydag ysgolion eraill. Mae’r athrawon yn gweithio’n ddiwyd gydag athrawon ysgolion lleol i ddiwygio’u cynlluniau gwaith i ymateb i’r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion, er enghraifft wrth drefnu ymweliadau â gwinllan Pant Du a chanolfan iaith Nant Gwrtheyrn yn gysylltiedig â’u gwaith ar eu thema ar freuddwydion.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu addas sy’n sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gywir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r amserlen hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ystyried a dadansoddi tystiolaeth eang ynglŷn â chyflawniad disgyblion. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau’r ysgol yn dda ac yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth gadarn o’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae cyswllt da rhwng yr adroddiad hunanarfarnu â’r cynllun gwella ysgol sy’n canolbwyntio’n glir ar wella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae’r pennaeth a’r athrawon yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr i’r llywodaethwyr sydd yn dangos lle mae angen gwelliant pellach. Mae hyn eisoes wedi arwain at wella safonau rhifedd.

Mae gwariant wedi ei gysylltu’n dda â blaenoriaethau’r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro’n ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol. Mae buddsoddiad diweddar wedi sicrhau bod offer TGCh newydd sy’n gymorth i godi safonau. Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn briodol i godi safonau gwaith disgyblion penodol.

Mae’r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i’r ysgol ac mae aelodau’n ymweld â dosbarthiadau a’r ysgol gyfan yn rheolaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn dilyn ymweliadau adeiladol. Mae hyn yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o bob agwedd o fywyd yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr yn datblygu’n fwriadus ac maent yn dechrau herio’r ysgol am ei pherfformiad. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu’n raddol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2018